

**GRŴP CYFEIRIO RHANDDEILIAID AR Y DULL YSGOL GOFAN DROS IECHYD
MEDDWL A LLESIANT EMOSIYNOL**

**AIL GYFARFOD 13 MAI 2019,
YSTAFELL CAERDYDD 3, CP2**

Eitem 1: Y Sawl sy'n Bresennol, Croeso a Chyflwyniadau

Presennol	
Jason Pollard (JP), Cadeirydd	Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol mewn Ysgolion, AGC, Llywodraeth Cymru
Joanne Maddaford (JM)	CAMHS a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, Llywodraeth Cymru
David Tutton (DT) (Ysgrifenyddiaeth)	Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol mewn Ysgolion, AGC, Llywodraeth Cymru
Khalid Afzal (KA) (Ysgrifenyddiaeth)	Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol mewn Ysgolion, AGC, Llywodraeth Cymru
Amani Hassan (AH)	Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
Kolade Gamel (KG)	CAHMS a Nyrsio Iechyd y Cyhoedd
Catherine Davies (CD) ar ran Tim Opie	CLILC
Deb Austin (DA)	Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc
Jacinta Tan (JT)	Seiciatrydd Ymgynghorol Plant a'r Glasoed
Kate Henegan (KH)	Papyrus UK
Kirrin Davidson (KD)	Swyddfa'r Comisiynydd Plant
Lynne Neagle (LN)	Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Paul Glaze (PG)	Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
Sharon Lovell (SL)	Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
Rob Williams (RW)	Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
Chris Alders (CA)	Awdurdod Lleol Caerdydd
Helen Furneaux (HF)	Ymweliadau Iechyd a Gwasanaethau Nyrsio mewn Ysgolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Addysgu Powys
Sue Mably (SM)	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Nia Evans (NE)	Mind Cymru
Craige Wilson (CW)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Angela Lodwick (AL) drwy Gyswllt Fideo	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ymddiheuriadau	

Ann John	Hunanladdiad a Hunan-niwed, Prifysgol Abertawe
Cath Norton	Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Heather Potter	GIG Cymru
Lisa Dunsford	Bwrdd Clinigol Plant a Menywod, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Lynzi Jarman	Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru
Rhian Morgan Ellis	Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Sarah Stone	Y Samariaid
Tim Opie	CLILC

1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd JP yr aelodau a gwnaed cyflwyniadau o amgylch y bwrdd. Darllenodd y rhestr o'r ymddiheuriadau a ddaeth i law.

2. Cofnodion a Chantau Gweithredu o'r cyfarfod cyntaf (24 Ionawr 2019)

2.1 Trafodwyd y cofnodion a'r camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol. Roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cyflawni heblaw am Gam Gweithredu 1 a Cham Gweithredu 7. Cadarnhaodd DA fod Cam Gweithredu 1 yn barhaus ac y dylid ei gario drosodd i'r cyfarfod nesaf. Cadarnhaodd JP a DA, gan fod ganddynt gydberthynas waith agos fel arfer, y dylid ystyried bod Cam Gweithredu 7 wedi'i gyflawni.

Cam Gweithredu 1 (wedi'i gario drosodd o'r cyfarfod cyntaf: DA i drafod cynrychiolaeth seiciatrig i oedolion ar y grŵp hwn â Carol Shillabeer, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a rheolwr Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc.

3. Y wybodaeth ddiweddaraf am y canlyniadau o gyfarfod diwethaf (4 Mawrth 2019) y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidigol a'r blaenoriaethau ar gyfer y cyfarfod nesaf (3 Mehefin)

[Cofnodion cyfarfod diwethaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'u hatodi]

3.1 Rhoddodd JP y wybodaeth ddiweddaraf am y materion allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidigol ar 4 Mawrth 2019. Yn gyntaf, y cynllun gwaith yr ystyriwyd ei fod yn rhy hir ac yn seiliedig ar brosesau. Ers hynny, mae wedi cael ei ddiwygio i ganolbwyntio mwy ar bethau i'w cyflawni. Caiff y cynllun gwaith diwygiedig ei ddosbarthu er mwyn i'r grŵp roi sylwadau arno dros e-bost.

Cam Gweithredu 2: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r cynllun gwaith diwygiedig er mwyn i aelodau'r grŵp roi rhagor o adborth a sylwadau arno.

3.2 Roedd papur yn amlinellu'r cyllid hefyd wedi cael ei drafod. Cadarnhaodd JP fod £2.5 miliwn o gyllid rheolaidd o'r gyllideb iechyd ar gyfer y rhaglen wedi'i sicrhau.

Ceisiwyd safbwyntiau'r grŵp ar y blaenoriaethau o ran gwariant ar gyfer y cyllid hwn, a drafodir ymhellach yn eitem 5c ar yr agenda.

3.3 Cadarnhaodd JP fod data mapio hefyd wedi cael eu trafod a bod holiadur wedi'i ddatblygu gan CCAC er mwyn nodi gweithgarwch presennol mewn ysgolion. Roedd hwn wedi'i ddosbarthu i bob ysgol i'w gwblhau erbyn 14 Mehefin. Nododd SM fod Cyllid Cyhoeddus Cymru eisoes wedi gwneud gwaith ar fapio ymyriadau ac felly, o'r ddau ymarfer hyn, y dylid gallu cael darlun cynhwysfawr o arfer da mewn ysgolion. Cadarnhaodd RW hefyd fod Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yn fodlon helpu â'r gweithgarwch hwn.

3.4 Nododd JP fod trafodaethau hefyd wedi'u cynnal ar y broses o gasglu data â DECIPHer – yr arweinydd ar gyfer arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Cafwyd cytundeb cyffredinol bod angen casglu data iechyd a llesiant mewn ysgolion cynradd hefyd – er mwyn cwrmpasu safbwynt y blynyddoedd cynnar. Byddai hyn yn helpu wrth hunanwerthuso. Nododd JP hefyd fod Prifysgol Caerdydd wrthi'n llunio cynnig ymchwil i Sefydliad Wolfston i archwilio iechyd meddwl ymysg plant, yn cynnwys mewn ysgolion.

3.5 Yn olaf, cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn y dyfodol a chytunwyd hefyd y dylid gwahodd Steve Davis (Cadeirydd y Grŵp Prif Swyddogion Ieuencid) i gyfarfodydd o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn y dyfodol.

3.6 Cadarnhaodd JP y cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidogol ar 3 Mehefin 2019, a bod yr agenda wrthi'n cael ei chadarnhau. Bydd y cyfarfod yn cynnwys cyflwyniadau gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru (ar waith ymchwil a gwerthuso i gefnogi'r rhaglen); Mark Campion (ar Adolygiad Thematig Estyn ar Iechyd a Llesiant a gaiff ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2019); a Julie Bishop (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a fydd yn rhoi cyflwyniad ar sut beth yw ysgol sy'n 'iach yn feddyliol' o bosibl.

3.7. Yna, cafwyd trafodaeth ehangach lle y nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'n dda gweld bod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen am gael mwy o ffocws ar ddata ysgolion cynradd – a amlygwyd yn adroddiad *Cadernid Meddwl*. Mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod llawer o waith da yn mynd rhagddo a bydd yn ddiddorol gweld beth fydd wedi'i gynnwys am hyn yn arolwg Estyn.
- Byddai'n ddefnyddiol cael cyflwyniadau ar y broses o gasglu data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (ar gyfer y grŵp hwn) pan ddylai trafodaethau â DECIPHer i ehangu'r broses o gasglu data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion fod yn gliriach.
- Mae'n bwysig iawn sicrhau y caiff lleisiau plant a phobl ifanc eu clywed wrth i ni ddatblygu ein blaenoriaethau a'n polisiâu. Mae ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Ieuencid wedi cwrdd ddwywaith ac mae cynnydd da yn cael ei wneud. Mae angen cael llif o wybodaeth ar draws y tri grŵp (y Grŵp Cyfeirio Strategol, y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Ieuencid a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidogol). Efallai y gallai unigolyn o'r Grŵp Ieuencid fynd i'r grŵp hwn er mwyn cynrychioli ei safbwyntiau. Mae cyfarfod nesaf y grŵp Ieuencid wedi'i drefnu ar gyfer 6 Gorffennaf lle gallwn godi'r mater hwn.

Cam Gweithredu 3: CvBH i ganfod a fyddai aelod o'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid leuenctid yn fodlon mynychu cyfarfod nesaf y grŵp hwn er mwyn sicrhau bod ei safbwyntiau'n cael eu clywed.

- LN – nododd y Senedd leuenctid yn ddiweddar fod angen rhoi prif flaenoriaeth i ieuchyd emosiynol ac ieuchyd meddwl pobl ifanc. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystyried y ffordd y gallwn gydweithio/gwrdd â swyddogion perthnasol o Lywodraeth Cymru i drafod yr agenda hon ymhellach er mwyn cael safbwyntiau ehangach cyn gynted â phosibl.
- Rhannodd JT bryderon LN ynghylch ansawdd ac argaeledd data ieuchyd meddwl arbenigol. Mae angen dybryd i gaffael y data hyn, ac er mwyn gwneud hynny'n briodol, bydd angen eu codio'n briodol ac ati. Mae data meddygon teulu yn canolbwyntio ar ddiagnosis yn bennaf. Nododd JP ei fod yn ymwybodol nad oes unrhyw ddarlun cyflawn o ddata ar gael ond bod data yn cael eu casglu o ffynonellau amrywiol lle bynnag y bo'n bosibl. Cadarnhaodd JM fod Adran Iechyd Llywodraeth Cymru yn datblygu set ddata ieuchyd meddwl ac y bydd yn rhoi adborth ar y manylion yng nghyfarfod nesaf y Grŵp.

Cam Gweithredu 4: JM i rannu statws presennol y broses o ddatblygu'r set ddata graidd ar gyfer ieuchyd meddwl a llunio rhan o drafodaeth ehangach ar ddata yn y cyfarfod nesaf.

4. Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd is-grwpiau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
[Y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan CvBH, papurau wedi'u hatodi i'w nodi]

4.1 Gan nodi'r cefndir i'r broses o sefydlu is-grwpiau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, nododd JP ein bod yn rhagweld y byddai'r grwpiau hyn yn ein cefnogi fel arbenigwyr yn y maes o ran drafftio canllawiau a sicrhau 'cynhyrchion' eraill sy'n deillio o'r rhaglen.

4.2 Rhoddodd CvBH adborth i'r aelodau ar gynnydd yr is-grwpiau. Er bod y pwyntiau cyffredinol yn cael eu crynhoi isod, mae cofnodion pob un o gyfarfodydd yr is-grwpiau (atodedig) yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma.

- Y neges glir a gafwyd gan bob grŵp yw'r angen am ddull ysgol gyfan wedi'i dargedu sy'n sicrhau y gellir gwneud i gymorth gan gymheiriaid weithio'n fwy effeithiol;
- Roedd yn bwysig meddwl yn yr hirdymor er mwyn sicrhau y bydd gwasanaethau priodol yn bodoli 10 mlynedd i ffwrdd;
- Bydd angen dulliau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn archwilio a oes angen gwasanaethau gwahanol a pha wahaniaethau y byddent yn eu golygu i bobl ifanc.
- Mae angen dull cyfannol drwyddi draw.

4.3 Roedd rhai aelodau yn bryderus ynghylch y diffyg cynrychiolaeth o ysgolion ar yr is-grwpiau – yn enwedig ar yr is-grŵp eiriolaeth. Cytunodd JP fod hyn yn peri pryder a holodd a allai RW drefnu bod cynrychiolaeth o Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cam Gweithredu 5: Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu ag RW mewn perthynas â chynrychiolaeth o ysgolion mewn cyfarfodydd is-grwpiau yn y dyfodol.

4.4. Gofynnodd NE am eglurhad ynghylch y ffordd y mae'r grŵp hwn yn cyd-fynd â thirwedd ehangach llesiant plant a phwy sy'n gyfrifol am feysydd polisi gwahanol (h.y. pa rannau o *Cadernid Meddwl* sy'n cael eu cynnwys yng nghylch gwaith y Grŵp hwn a pha rai sy'n cael eu cynnwys yng nghylch gwaith Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc). Cytunwyd y gellid datblygu cynllun yn dangos y rhyngddibyniaethau a'r ffordd y mae pob grŵp yn cydweithio er mwyn cyflawni'r argymhellion a amlinellir yn adroddiad *Cadernid Meddwl*.

Cam Gweithredu 6: Yr Ysgrifenyddiaeth, DA a JM i lunio diagram yn dangos y ffordd y mae'r llifau gwaith a'r grwpiau gwahanol yn cyd-fynd a'r rhyngddibyniaethau.

4.5 Dywedodd JP wrth yr aelodau fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd gan Weinidogion ym mis Mawrth 2019. Roedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg wedi cytuno i ymddangos gerbron y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 20 Mehefin er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran argymhellion *Cadernid Meddwl*. Yn fuan wedyn, byddai'r Pwyllgor hefyd yn craffu ar Carol Shillabeer fel arweinydd rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc.

Cam Gweithredu 7: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu copi o ddiweddariad Pwyllgor Mai 2019 i aelodau'r grŵp.

4.6 Hysbysodd KG y grŵp fod penaethiaid mewn ysgolion yng Nghasnewydd a Thorfaen yn gwneud cynnydd da o ran datblygu dull ysgol gyfan ac y gallent fod yn gysylltiadau defnyddiol ar gyfer profi gweithgarwch a chael mewnbn.

4.7 Gofynnodd SL am ddyddiadau cyfarfodydd nesaf yr is-grwpiau. Cadarnhaodd CvBH mai nod y cyfarfod cyntaf oedd sefydlu blaenoriaethau a chyfathrebu ac mai'r bwriad wedi hynny oedd i'r Grwpiau gwrdd drwy rith-gyfarfodydd er mwyn lleddfu'r baich ar aelodau a lleihau gwaith gweinyddol. Roedd SL o'r farn bod angen rheoli cyfarfodydd yr is-grŵp eiriolaeth yn fwy cadarn er mwyn sicrhau bod trafodaethau'n cael eu gweithredu'n briodol. Roedd yn fodlon cyfrannu at y broses o drefnu a hwyluso cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cam Gweithredu 8: Yr Ysgrifenyddiaeth ac SL i drafod y broses o drefnu cyfarfodydd yr is-grŵp eiriolaeth yn y dyfodol.

4.8 Yna, canolbwyntiodd y cyfarfod ar drafodaethau a gynhaliwyd yn yr is-grŵp dysgu proffesiynol. Cadarnhaodd CvBH y cynhaliwyd cyfarfodydd mewnol â'r pennaeth hyfforddiant athrawon yn Llywodraeth Cymru er mwyn canolbwyntio'n fwy ar broblemau iechyd emosiynol mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA). Nodwyd hefyd fod swyddogion wedi cwrdd â Phrifysgolion Cymru ac wedi cytuno ar

gynllun cychwynnol i ddatblygu deunyddiau hyfforddiant athrawon ar gyfer myfyrwyr TAR a B.Ed. Er mai megis dechrau oedd y gwaith cynllunio, nodwyd bod cynnwys y cwrs ar gyfer y myfyrwyr a fyddai'n dechrau ym mis Medi 2019 eisoes wedi'i nodi, felly byddai'r gweithgarwch yn canolbwyntio ar ddatblygu modiwl hyfforddiant o amgylch datblygiad ac iechyd meddwl emosiynol plentyn a allai fod ar gael o fis Medi 2020.

4.9 Roedd RW hefyd o'r farn ei bod yn bwysig nodi mai dim ond tua 60% o athrawon sydd mewn cyflogaeth llawn amser felly mae'n bwysig iawn sicrhau eu bod nhw, yn ogystal â staff addysgu llawn amser, yn gallu manteisio ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol.

5. Blaenoriaethau ar gyfer gweddill 2019

(a) Fframwaith Gweithredu Ysgol Gyfan [Papur i'w nodi wedi'i atodi]

5.1 Esboniodd JP fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau llunio canllawiau fframwaith ar gyfer ysgolion a bod y bwriad i lunio canllawiau o'r fath wedi'i nodi yn ymateb dilynol Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor. Diben y canllawiau yw helpu ysgolion i asesu eu hanghenion emosiynol ac iechyd meddwl eu hunain a datblygu cynllun i fynd i'r afael â phroblemau a gwella darpariaeth.

5.2 Roedd JP o'r farn mai rôl y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a'i is-grwpiau oedd datblygu'r fframwaith ymhellach ar gyfer ymgynghoriad mwy ffurfiol yn ddiweddarach yn 2019.

5.3 Nododd JP nad bwriad y ddogfen oedd cynyddu'r baich ar ysgolion, ond yn hytrach eu hannog i ystyried pwysigrwydd llesiant disgyblion, iechyd meddwl da a gwydnwch. Bydd hefyd yn eu hannog i benodi hyrwyddwr neu arweinydd i ddatblygu hyn yn yr ysgol. Nododd JP fod cryn dipyn yn gyffredin rhwng y fframwaith canllawiau a dogfennau Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru.

5.4 Nodwyd, mewn perthynas â'r adran a oedd yn ymwneud â'r gydberthynas ag asiantaethau eraill, a pCAMHS yn benodol, fod Uned Cyflawni'r GIG yn cynnal adolygiad o ddarpariaeth pCAMHS ar hyn o bryd. Byddai'r canlyniadau ar gael maes o law ac yn cael eu rhannu â'r Grŵp pan fyddent ar gael.

5.5 Trafododd y grŵp bwysigrwydd cynnwys cynrychiolwyr meddygon teulu yn y broses am mai nhw yn aml yw'r pwynt cyswllt cyntaf o ran ymateb iechyd. Fodd bynnag, nodwyd ei bod yn aml yn anodd sicrhau cynrychiolaeth meddygon teulu ar grwpiau o'r fath oherwydd yr angen am feddygon locwm wrth gefn, er y byddai hyn yn cael ei archwilio.

Cam Gweithredu 9: Yr Ysgrifenyddiaeth i ofyn i Liz Davies (SMO), cydweithiwr ym maes iechyd yn Llywodraeth Cymru, am gyngor ar y ffordd orau o sicrhau cynrychiolaeth meddygon teulu ar y Grŵp.

5.6 Awgrymwyd nifer o sylwadau a materion i'w cynnwys yn y canllawiau amlinellol yn ystod y cyfarfod, sydd wedi'u hymgorffori yn y drafft presennol. Cytunwyd

ymhellach y byddai'n cael ei ddosbarthu i aelodau'r Grŵp gyda 'fffenestr' o bedair wythnos ar gyfer rhoi rhagor o sylwadau. Yn dilyn hyn ac ar ôl derbyn unrhyw sylwadau, byddem wedyn yn ceisio gweithio drwy'r is-grwpiau er mwyn datblygu'r ddogfen ganllaw ymhellach.

Cam Gweithredu 10: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r fframwaith er mwyn i'r Grŵp roi sylwadau arno.

5.7 Hysbysodd NE yr aelodau fod Mind Cymru wrthi'n treialu dull ysgol gyfan dros ieuchyd meddwl mewn ysgolion yng Nghasnewydd a'i bod yn ystyried rhwydweithio ledled Cymru. Mae'r cynllun peilot yn ategu data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion a Chynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru ac yn adeiladu arnynt, a chaiff y canfyddiadau cynnar (sy'n cwmpasu disgyblion, rheini a staff ysgol) eu lansio dros yr ychydig wythnosau nesaf.

Cam Gweithredu 11: NE i rannu'r canfyddiadau cynnar hyn â'r grŵp maes o law.

(b) Y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau penodol (ar lafar)

5.8 Rhannodd JP rai o'r prif feysydd i'w datblygu ar gyfer gweddill y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Cwnsela mewn ysgolion.* Rydym yn gweithio gydag arweinwyr cwnsela awdurdodau lleol ledled Cymru er mwyn adeiladu capasiti a galw o fewn y system. Roedd hyn yn un o'r argymhellion allweddol a nodwyd yn adroddiad Cadernid Meddwl.
- Mae'r hen *becyn cymorth cwnsela* wrthi'n cael ei ddiweddarau ac rydym yn gweithio'n agos gyda grŵp rhanddeiliaid sy'n cynnwys arweinwyr a darparwyr cwnsela awdurdodau lleol. Rydym yn disgwyl i'r pecyn cymorth diwygiedig gael ei gyhoeddi tuag at ddiwedd y flwyddyn (2019).
- *Gwasanaethau cwnsela ar-lein.* Mae rhai awdurdodau lleol eiseos yn rhoi cymorth ar-lein i blant a phobl ifanc. Er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar-lein yn gyson ac yn deg ledled Cymru, rydym yn gweithio gydag arweinwyr cwnsela ac wedi gofyn i Technoleg Iechyd Cymru gynnal ymarfer cychwynnol er mwyn pennu cwmpas y ddarpariaeth hon.
- Rydym wrthi'n cadarnhau'r *canllawiau ar hunanladdiad a hunan-niwed* a ddatblygwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Brifysgol Abertawe a Grŵp Cyngori Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed. Rydym hefyd yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe er mwyn gweld pa ddeunyddiau eraill y gellir eu llunio i gefnogi ysgolion, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr.

(c) Ariannu blaenoriaethau (ar lafar)

5.9 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae £2.5 miliwn o gyllid rheolaidd wedi'i sicrhau ar gyfer datblygu gwaith dull ysgol gyfan. Nid yw'r Gweinidogion wedi cytuno ar y manylion llawn ar gyfer y ffordd y caiff y cyllid ei ddosbarthu a'i rannu eto, er mai ein sylwadau cychwynnol yw y gallai'r cyllid gefnogi:

- Cwnsela ac adnoddau eraill ar-lein;
- Modiwl HCA newydd
- Profi ymyriadau mewn ysgolion – wedi'i ariannu drwy gynllun grant trydydd sector.

6. Unrhyw Faterion Eraill

6.1 Cytunwyd bod angen i'r grŵp gael mewnbwn o'r sector Addysg Bellach (AB) ac y dylid ceisio penodi cynrychiolydd.

Cam Gweithredu 12: Yr Ysgrifenyddiaeth i ofyn am help gan Marian Jebb o Is-adran AB Llywodraeth Cymru i nodi cynrychiolydd AB addas ar gyfer y grŵp hwn.

6.2 Hysbysodd PG yr aelodau y caiff digwyddiad arddangos ei gynnal cyn bo hir yn y Senedd a fydd yn rhoi cyfle i weithwyr ieuencid a phobl ifanc ddathlu cyflawniadau gwaith ieuencid, yn ogystal â hyrwyddo dealltwriaeth a chymorth ehangach ar gyfer gwaith ieuencid. Noddwyd y digwyddiad gan Llyr Gruffydd AC, a bydd yn cynnwys amrywiaeth o siaradwyr a marchnad o stondinau sy'n dangos amrywiaeth ac effaith gwaith ieuencid ledled Cymru. Bydd y Gweinidog Addysg hefyd yn bresennol a bydd yn lansio Strategaeth Gwaith Ieuencid newydd i Gymru. Cynhelir y digwyddiad ar 25 Mehefin 2019.

Mae rhagor o fanylion ar gael gan rachel@youthcymru.org.uk

6.3 Cyhoeddwyd dyddiad ar gyfer y dyddiadur:

- Dydd Mercher 19 Mehefin, Canolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd – *Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc: Help Cynnar a Chymorth Gwell*. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan DA.

Dyddiad ac amser y Cyfarfod Nesaf

Trefnwyd cyfarfod nesaf y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar gyfer dydd Llun 2 Medi 2019, rhwng 10:00 a 11:30, yng Nghaerdydd 2, CP2.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:00am.